

# Gwir ryfeddod

Sicrhaodd llwyddiannau Andy Murray fod un o arwyr mawr dilynwyd tennis yng ngwledydd Prydain wedi mynd yn angof. Trodd *Henman Hill* Wimbledon yn *Murray Mound* ers tro byd, ac mae mwy o sôn am 'Tim Murray' nag am Tim Henman erbyn hyn. Ond ers dydd Mawrth, mae'r sylw a roes y cyfryngau Prydeinig i'r daith ddiweddaraf i'r Orsaf Ofod Ryngwladol wedi sicrhau mai Tim arall a gaiff y sylw am sbel. Gallech dybio fod Tim Peake yn ffrind gorau i bawb ohonom o weld pobl o bob oed yn bloeddio ei enw wrth iddo gychwyn ar ei daith i'r gofod.

Ni allwn ond edmygu dewrder y dyn a'i gyd-deithwyr. Ac ni allwn chwaith ond rhyfeddu at allu'r gwyddonwyr a phawb sy'n ymwneud â'r holl anturiaeth. Mae eu gwybodaeth a'u dyfeisgarwch yn sicr ymhell y tu hwnt i'm hamgyffred i. Buddsoddwyd egni, doniau, amser ac arian i sefydlu a datblygu'r Orsaf Ofod, a phwy a wŷr pa fanteision a ddaw eto trwy'r rhaglen hon ac ymdrechion y bobl sy'n rhan o'r anturiaeth neu'n cyfrannu at y gwaith ymchwil cyffrous hwn.

Yr wythnos ddiwethaf, felly, gwelwyd torfeydd yn dathlu ymadawiad un dyn o'r ddaear i'r gofod. (O'r holl sylw a roddwyd i Tim Peake ar y cyfryngau Prydeinig, gallech feddwl nad oedd neb arall gydag ef yn y llong ofod.) Yr wythnos hon, bydd torfeydd ym mhob rhan o'r byd yn dathlu dyfodiad un dyn i'r ddaear. A'r peth syfrdanol yw fod taith y person hwnnw yn fwy rhyfeddol na'r un daith a wneir gan ofodwyr fel Tim Peake.

Dechreuodd y daith honno yn y nefoedd ei hun. Oherwydd yr hyn a ddisgwyn yn

Y Beibl am y babi a aned ym Methlehem yw ei fod nid yn unig yn blentyn Mair ond hefyd yn Fab y Duw Goruchaf ei hun. Mwy rhyfeddol na bod dyn yn mynd i'r gofod ac i'r lleuad (ac i ba blaned bynnag yr aiff iddo eto) yw'r ffaith fod Duw wedi dod i lawr i'n byd ym mherson Iesu Grist.

Nid technoleg na gwyddoniaeth fu'n gyfrifol am y daith a wnaeth Mab Duw o'r nefoedd i'r ddaear ond cariad a thrugaredd. Ond gellid dweud fod y cariad hwnnw'n fwy pwerus ac yn fwy ffrwydrol hyd yn oed na'r holl danwydd a ddefnyddiwyd i anfon y llong ofod ar ei thaith y dydd o'r blaen. Mae dyfodiad Iesu Grist i'n byd yn dangos holl gariad Duw yn cael ei dywallt arnom.

Gwn yn dda na fyddai pawb yn cytuno â'r fath ddweud. I lawer o bobl, cwbl ynfyd yw meddwl y gellid am un eiliad feddwl fod disgyniad Iesu i'n daear yn fwy o ryfeddod na dyrchafiad pobl i'r gofod. Iddynt hwy, dychymyg neu ffantasi, credo neu athrawiaeth ddi-sail yw pob sôn am eni Iesu Grist. Dim ond ffyliaid fyddai'n credu fod stori'r Beibl am eni'r babi ym Methlehem yn wir! A byddai angen ffyliaid ffolach fyth i feddwl am un eiliad fod yr enedigaeth honno a'r babi hwnnw'n dod yn agos at restr gwir ryfeddodau'r byd hwn.

Ond does gennyf fi ddim cywilydd o gwbl o'r ffaith fy mod yn un o'r ffyliaid hynny gan mai Iesu (fel dywed yr emyn) yw rhyfeddod y rhyfeddodau i gyd.

'Rhyfeddod pob rhyfeddod yw –  
Gweld Iesu'n Ddyn, ac eto'n Dduw;  
Ar liniau Mair yn faban gwan –  
Yn Dduw presennol ym mhob man.'

'A daeth y  
Gair yn gnawd'

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 663: Dydd Sul, 20 Rhagfyr, 2015



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda  
i bawb ohonoch

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Bydd yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch yng ngofal Miss Dilys Mai Roberts a Mr Colin Jones. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 5.00 o'r gloch, gyda Pharti Nadolig y plant yn dilyn yr oedfa.

Bydd Gwasanaeth Nadolig yng ngofal y plant a'r ieuenedid yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch; a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig am 5.00 o'r gloch.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig am 2.00 o'r gloch. Gwneir casgliad at Apel Nadolig Cymorth Cristnogol. Bydd paned i bawb yn y festri wedi'r oedfa.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Diolch i bawb am yr holl baratoi ar gyfer yr oedfaon arbennig a gynhelir heddiw i ddathlu'r Nadolig.

## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Mae Mrs Elisabeth Foster ym Mhlas Pengwaith, Llanberis yn dilyn cyfnod y Ysbyty Gwynedd wedi iddi syrthio ac anafu ei braich yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati ac at bawb arall sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar drothwy'r Nadolig.

## Oedfa Garolau

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y Gwasanaeth Naw Llith a Charol undebol yn Capel Coch nos Sul diwethaf. Roedd yr oedfa dan arweiniad y Parchg Carol Roberts a chafwyd neges ar gyfer y Nadolig gan Andrew Settatree.

Gwnaed casgliad o £51.66 at Gynllun Efe.

## Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2015 yn cau ddydd Sul nesaf, Rhagfyr 27. Gwerthfawrogir pob ymdrech i gwblhau cyfraniadau 2015 mewn da bryd erbyn y dyddiad hwnnw.

## Cyfraniadau Ariannol

Bydd trysoryddion pob un o eglwysi'r Ofalaeth yn falch o dderbyn cyfraniadau yr aelodau am 2015 mewn da bryd erbyn diwedd y flwyddyn.

Diolch am bob cyfraniad a wnaed hyd yma, ac os oes cyfraniadau eto i'w gwneud apeliwn arnoch i'w gwneud cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso gwaith trysoryddion ac ysgrifenyddion ariannol yr eglwysi.

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth yn y flwyddyn newydd, tua diwedd Ionawr neu ddechrau Chwefror.

Awgrymir nos Fawrth, Ionawr 26 neu nos Fercher, Ionawr 27 fel dyddiadau posibl. Os yw'r naill neu'r llall yn amlwg yn anhwylyd i un neu ragor o'r eglwysi, rhowch wybod i'r Gweinidog os gwelwch yn dda.

## Cymun y Nadolig

Cynhelir Gwasanaeth Cymun fore dydd Nadolig yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Mae croeso i bawb ymuno â ni ddathlu Geni Crist yn yr oedfa hon.

## beibl.net

Soniwyd fwy nag unwaith yn Gronyn yn ddiweddar am y cyfieithiad newydd o'r Beibl a gyhoeddwyd mewn llyfr am y tro cyntaf ddechrau mis Tachwedd.

Bu raid ail argraffu y **beibl.net** hwn ar unwaith. Daeth y copiau acw i Lanberis fore ddoe, a rhyfedd meddwl eu bod dal yn China nos iau! Mi gawson nhw eu hedfan i Faes Awyr Birmingham erbyn 2.00 o'r gloch ddydd Gwener, ac roedd lori yn llythrennol ar y llain glanio i'w casglu a'u danfon wedyn i Chwilog erbyn 6.30 nos Wener, cyn i Aled Davies ddod â nhw yma i mi fore ddoe.

Mae copiau ar gael am £10 yn lle £15. Rhowch wybod i mi os ydych eisiau copi. Anfonwch e-bost os medrwch i john.cilfynydd@btinternet.com; neu os na fedrwch wneud hynny ffoniwch 01286 872390.

## Dim Gronyn Sul nesaf

Ni fydd *Gronyn* yn cael ei gyhoeddi'r Sul nesaf, Rhagfyr 27. Dyna fu'r patrwm bob blwyddyn ar y Sul wedi'r Nadolig, ac fe gadwn at yr arfer eleni eto.

Cyhoeddir y rhifyn nesaf, felly, ddydd Sul, Ionawr 3, 2016.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Nadolig:** Gwasanaeth Cymun Bore Nadolig yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 27:** Ni fydd oedfa.

**Dydd Sul, Ionawr 3:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Nadolig:** Gwasanaeth Cymun Bore Nadolig yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 27:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Y Gweinidog.

**Dydd Sul, Ionawr 3:** Cyfarfod Gweddi yng ngofal y Chwiorydd am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Rhagfyr 27:** Ni fydd oedfa.

**Dydd Sul, Ionawr 3:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Rhagfyr 27:** Ni fydd oedfa.

**Dydd Sul, Ionawr 3:** Oedfa Dechrau Blwyddyn am 2.00 o'r gloch yng ngofal yr aelodau.

### CARMEL

**Dydd Nadolig:** Gwasanaeth Nadolig yng Ngharmel am 9.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Rhagfyr 27:** Cyfarfod Gweddi Carolau am 5.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 3:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.